

Cyngor Cymuned Ganllwyd

Chwerfor 7fed 2024

Presennol

Cyng D.Morris,S.Jones, G.Jones, C.Edwards a S.Roberts,C.Dixon a D.Griffiths.

Angela Jones, Gwenno Jones, swyddogion cyswllt Parc Eryri.

Rhys Llewelyn a Sian Roberts trafodaeth Coed y Brenin.

Ymddiheuriad

Neb.

Cofnodion Ionawr 2024.

Cynnigodd Cyng D.Morris fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng S.Roberts.

Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.

Dim.

Cynlluniau cymunedol Parc Cenedlaethol Eryri.

Croesawodd y cyngor Angela a Gwenno i'r cyfarfod. Clywodd y cyngor y wybodaeth ganlynol am gynlluniau'r parciau cenedlaethol a'u cyfranogiad cymunedol mewn prosiect o'r enw Cynllun Eryri.

Cronfa Cymunedau Eryri - bydd y gronfa yn manylu ar nifer o themâu megis seilwaith gwyrdd, gwell mynediad at hamdden ar gyfer iechyd a lles, cynhyrchu ynni, datgarboneiddio, gwelliannau amgylcheddol lleol fel rheoli sbwriel a gwastraff, datblygwyr cymunedol.

Bydd grantiau cyfalaf o rhwng £5,000 ac £20,000 yn cael eu darparu i brosiectau sy'n bodloni'r meini prawf ac sy'n cael eu cymeradwyo gan y panel.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi ymrwymo i gefnogi datblygu cynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol ac mae'n hyderus y bydd y gronfa gymunedol yn adnodd gwerthfawr i'n cymunedau lleol.

Mae prosiectau fel llwybrau troed newydd, gorsafoedd cynnal a chadw beiciau a phrosiectau cymunedol wi fi yn syniadau o sut galli'r cyllid wedi'i ddyrannu i gymunedau yn y parc.

Gwahoddir ceisiadau o 8 Ebrill 2024 ymlaen ...

Gronfa Llesiant cymunedol:

Bwriad y Gronfa Llesiant Cymunedol yw cynorthwyo pobl sy'n byw o fewn y Parc Cenedlaethol i ddechrau prosiectau fydd o fudd i'w cymunedau a'u hamgylchedd lleol.

Bydd unrhyw brosiectau sy'n gwella'r amgylchedd neu'r gymuned leol ac yn cwrdd â nod ac amcanion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gymwys i'w hariannu.

Cefnogir yn benodol y prosiectau hynny sy'n ceisio cynnwys meini prawf cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Awdurdod y Parc Cenedlaethol mewn ffyrdd y gellir arddangos eu bod yn gynladwy.

Bydd rhwng £100-£500 ar gael.

Gwirfoddolwyr.

Mae cyfle i bobl 18 oed a hŷn wirfoddoli a gweithio ar brosiectau parhaus o fewn y sefydliad. Mae angen gwirfoddolwyr ar gyfer misoedd yr Haf yn unig. Mae gwefan y Parc yn cynnwys manylion a ffurflen gais i'r rhai sy'n dymuno gwneud cais.

Gwybodaeth ychwanegol;

Mae Parc Cenedlaethol Eryri am greu fforwm pobl ifanc, bydd rhagor o wybodaeth ar gael cyn gynted â phosibl ar y pwnc hwn.

O ran y pryderon presennol am Coed y Brenin, efallai y bydd y Parc Cenedlaethol yn gallu darparu grant a allai ariannu unrhyw waith a wneir gan grŵp cymunedol. Enghraifft a drafodwyd oedd astudiaeth ddichonoldeb yn edrych ar sawl agwedd ar ariannu a rhedeg Coed y Brenin. Bydd Angela Jones yn darparu rhagor o wybodaeth am y pwnc drwy e-bost at y clerc

Bydd y cyngor yn trafod prosiectau posibl y gellid eu hariannu gyda grantiau o'r parc cenedlaethol yn eu cyfarfod nesaf yn mis Mawrth.

Materion yn codi.

Cais cynllunio hen ysgol gynradd Ganllwyd-- Nid yw'r Cyngor Cymuned wedi derbyn diweddariad gan bwyllgor cynllunio y Parc ynglŷn â'r cais hwn.

Bydd y Clerc yn cysylltu â nhw i ganfod y sefyllfa bresennol.

Tipio'n anghyfreithlon yn Gelligemlyn- er gwaethaf cysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r broblem hon dywedodd y Cyngorydd Jones fod y malurion yn dal yn y fan a'r lle.

Clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd.

Ffordd ger blwch post, Hermon- Mae Mr Kojs, peirianydd Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau fod gwaith clirio ffosydd a.y.b wedi cael ei gwblhau yn yr ardal.

Cynghorwr Sir.

Mae Cyngorydd Griffiths wedi cael achlysur i gysylltu â CNC (Mr Richard Berry) dair gwaitho ganlyniad i ddifrod a achoswyd i'r briffordd gan eu sefydliad wrth gwmpo coed yn ardaloedd Bwlch y Ffordd a Maesgwm.

O ganlyniad i'r ffigyrau sydd wedi eu rhyddhau gan Lywodraeth Cymru, bydd gan Gyngor Gwynedd ddiffyg ariannol o £15m ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r cabinet yn llunio cynllun i ddelio â'r defecit enfawr hwn a byddant yn rhyddhau eu cynlluniau ar neu tua'r 7fed Mawrth 2024

Canolfan ymwelwyr Coed y Brenin, Ganllwyd – beth nesaf?

Mae tua 315 o holiaduron wedi cael eu dychwelyd i'r Cyngor Cymuned yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 1af Chwefror.

Bydd y camau canlynol yn cael eu gweithredu yn y dyddiau canlynol;

Cysylltu â phawb a fynychodd y cyfarfod a diolch am eu presenoldeb.

Bydd pwyllgor yn cael ei ffurfio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned.

Bydd y pwyllgor yn trafod y problemau presennol yng Nghoed y Brenin ac yn ceisio dod o hyd i atebion cynaliadwy hirdymor.

Bydd y pwyllgor yn darparu fforwm i gyfnewid ar sut y gellir cyrraedd eu hamcanion.

Cynghorwyr Morris a Jones yn cynrychioli'r cyngor cymuned.

Materion ariannol.

Cyllid misol.

Cyson Banc: Ionawr 2024

Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:	£4070.95
------------------------------	----------

Derbyniwyd:

Rhodd M.Ward	£250.00
--------------	---------

Taliadau:

Cyflog/Paye	£100.00
-------------	---------

Treuliau Banc	£5.00
---------------	-------

Yn y Banc diwedd mis	£4215.95
----------------------	----------

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg ariannol y cyngor.

Mae'r clerc wedi cwblhau cais am ad-daliad TAW am y flwyddyn ariannol.

Cytunodd y cyngor i dalu E.Ap Gomer mewn perthynas â'r gwaith ar wefan y cynghorau.

Unrhyw fater arall.

Mae'r Cynghorwyr Roberts a Edwards wedi cytuno i fynychu cwrs hyfforddi ar y cyfryngau cymdeithasol a Gwefan a drefnwyd gan Un Llais Cymru ar 19fed Chwefror 2024.

Yn dilyn pryderon diweddar a godwyd gan y Cyngor Cymuned ynghylch dyrannu tai cymdeithasol yn y gymuned, mae bellach wedi dod i sylw cynghorwyr bod tenantiaid yn trefnu eu cyfnewidfeudd tai eu hunain yn y pentref gan arwain at

bobl o'r tu allan i'r gymuned yn cael eu cartrefu yn yr ardal heb fawr o ymyrraeth neu ddim gan awdurdodau tai lleol. ,

Bydd Cyng Griffiths yn cysylltu ag ADRA am y sefyllfa sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn y pentref a chodi pryderon y cyngor cymuned.